EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

**COFNODION WYTHFED CYFARFOD AR HUGAIN**
**CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG**

**DYDDIAD: 20 Ebrill 2023**

**LLEOLIAD: Swyddfeydd CGA, 10fed Llawr, Tŷ Eastgate, 35 – 43 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0AB**

**Yn bresennol:**
**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Bethan Thomas | Kathryn Robson |
| David Williams | Kelly Edwards |
| Eithne Hughes | Nicola Stubbins |
| Geraint Williams | Rosemary Jones |
| Gwawr Taylor | Theresa Evans-Rickards |
| Jane Jenkins | |

**Ymddiheuriadau:**
Sue Walker

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Hayden Llewellyn | Prif Weithredwr |
| Elizabeth Brimble | Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer |
| Bethan Stacey | Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi |
| Lisa Winstone | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Beverley Curtis | Swyddog Llywodraethu Corfforaethol *(cofnodion)* |
| Jess Tippins | Swyddog Cyfathrebu CGA *(arsylwi)* |

## 1. Croeso a materion rhagarweiniol

1.1 Croesawodd y Prif Weithredwr yr aelodau a'r swyddogion i wythfed cyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Esboniodd fod tymor Cadeirydd blaenorol y Cyngor yn ei swydd wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023 ac y byddai'r broses o ethol Cadeirydd newydd yn dechrau'n syth ar ôl y cyfarfod. Byddai'n cadeirio cyfarfod cyntaf y Cyngor newydd yn y cyfnod pontio hwn yn unol â *System ar gyfer Ethol Cadeirydd y Cyngor* CGA.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sue Walker a oedd wedi cyflwyno nifer o sylwadau ar y papurau a fyddai'n derbyn sylw yn ystod y cyfarfod.

1.3 Gofynnwyd i'r aelodau rannu eu barn a'u hadborth ar yr Hyfforddiant Sefydlu a gynhaliwyd y diwrnod cynt. Roedd yr aelodau o'r farn bod y sesiynau'n gynhwysfawr ac yn ddiddorol. Aeth aelodau a ailbenodwyd ymlaen i ddweud bod y sesiynau'n fuddiol wrth loywi eu gwybodaeth, a gwnaethant dynnu sylw'n arbennig at y sesiynau briffio a roddwyd gan y siaradwyr allanol yn hynny o beth.

1.4 Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau i gwblhau'r dogfennau a roddwyd iddynt, gan gynnwys eu dewisiadau ar gyfer dirprwyo i Bwyllgor. Byddai'r aelodau'n cael eu dyrannu i eistedd ar Bwyllgorau sefydlog CGA ar ôl i'r dogfennau gael eu coladu ar ddiwedd y cyfarfod.

1.5 Atgoffwyd yr aelodau y byddai lluniau'n cael eu tynnu ohonynt ar ddiwedd y cyfarfod ac y byddent yn cael eu cyhoeddi ar wefan CGA.

**2. Datganiadau o Fuddiant**

2.1 Datganodd Kelly Edwards fuddiant parhaus mewn sawl eitem ar yr agenda, yn enwedig CGA 17/23, gan ei bod yn gweithio i Golegau Cymru.

2.2 Datganodd Gwawr Taylor fuddiant yn eitem agenda CGA 20/23 gan ei bod yn gweithio i Brifysgol Aberystwyth.

2.3 Datganodd Kathryn Robson fuddiant mewn sawl eitem ar yr agenda yn ymwneud â'i rôl fel Prif Weithredwr Addysg Oedolion Cymru.

2.4 Nododd Geraint Williams ei fod wedi ymgymryd â rôl Mentor Sefydlu mewn perthynas ag eitem agenda CGA 22/23.

2.5 Cytunodd yr aelodau na fyddai'r datganiadau o fuddiant hyn yn atal trafodaethau. Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r aelodau dynnu'n ôl o'r cyfarfod os oeddent yn teimlo bod gwrthdaro'n codi wrth i'r trafodaethau fynd ymlaen yn ystod eitemau'r agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiant.

**3. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023**

3.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023 a gofynnodd i'r aelodau a ailbenodwyd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod gymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau.

3.2 Wrth ymateb i ymholiad ynglŷn â'r sesiwn breifat pan drafodwyd adolygiad fframwaith cyflog y Prif Weithredwr, dywedwyd wrth yr aelodau bod nodyn ar wahân o'r drafodaeth ynglŷn â'r eitem honno o'r agenda yn cael ei gadw'n gyfrinachol gan Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*). Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi a chadarnhaodd yr aelodau'r cofnodion.

**4. Hysbysu am unrhyw faterion yr hoffai'r aelodau eu codi mewn perthynas â'r eitemau agenda 'er gwybodaeth'**

4.1 Ni hysbyswyd am unrhyw faterion.

**5. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 15/23**

5.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a roddodd ddiweddariad i'r Cyngor ar ystod o faterion nad oeddent yn derbyn sylw mewn rhan arall o'r agenda, a gwahoddodd sylwadau ac ymholiadau gan yr aelodau.

5.2 Gofynnodd i Lisa Winstone roi diweddariad i'r aelodau ar yr archwiliad a oedd ar y gweill gan Archwilio Cymru. Esboniodd hi, oherwydd bod safon archwilio newydd yn cael ei chyflwyno

eleni, fod Archwilio Cymru wedi cadarnhau y byddai oedi ledled y wlad wrth gynnal yr archwiliadau blynyddol ar gyfer blwyddyn 2022/23. Dim ond ychydig yn hwyrach na'r dyddiadau a ddisgwyliwyd yn wreiddiol oedd y rhai a roddwyd i CGA, ond ni fyddai'r archwiliad a'i ganfyddiadau'n cael eu cwblhau mewn pryd i'w trafod gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin ac ni fyddai modd eu cyflwyno i'r Cyngor i'w trafod a'u cymeradwyo ar 6 Mehefin 2023. O ganlyniad, byddai angen i gyfarfod eitem unigol o'r Pwyllgor a'r Cyngor gael ei gynnull yn gynnar ym mis Awst 2023. Byddai'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol yn cysylltu â'r aelodau, maes o law, gyda dyddiadau arfaethedig ar gyfer cynnal y cyfarfodydd hyn.

5.3 Wrth ymateb i ymholiadau aelodau ynglŷn â'r posibilrwydd o oedi pellach, esboniodd Lisa Winstone, yn unol ag Atodlen 1 (Paragraff 21) Deddf Addysg (Cymru) 2014, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu set o ddatganiadau ariannol i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 31 Awst bob blwyddyn. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod CGA yn anfon ei Adroddiad Blynyddol at Weinidogion Cymru a fyddai'n cyflwyno copi o'r Adroddiad i'r Senedd. Roedd Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r graddfeydd amser hyn sydd wedi'u gosod mewn deddfwriaeth.

5.4 Yn dilyn ymlaen o baragraff pump, amlygodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn gweithredu gyda 12 aelod yn hytrach na 14 gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu llenwi'r ddwy swydd wag sydd ar ôl ar hyn o bryd. Disgwyliwyd y byddai'r swyddi'n wag am beth amser. Mynegodd aelodau eu pryder ynglŷn â'r sefyllfa, gan nodi'n arbennig y ffaith nad oedd gan y Cyngor aelodau llawn wrth ethol Cadeirydd newydd. Wrth ymateb i awgrymiadau aelodau ynglŷn â strategaeth recriwtio, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod swyddogion wedi cysylltu'n aml â Llywodraeth Cymru ynghylch y broses recriwtio, gan amlygu'r peryglon posibl a gwneud awgrymiadau i unioni'r sefyllfa. Fodd bynnag, yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae'r Cyngor yn cael ei benodi gan y Gweinidog, ac felly nid oes gan CGA unrhyw awdurdod yn gysylltiedig â'r mater.

5.5 Gan gyfeirio at baragraff wyth, adroddodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi cyflwyno manylion y gweithgareddau a'r cyllid gofynnol ar gyfer 2023/24 i Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2023. Yn y gorffennol, roedd hyn wedi cael ei osod mewn templed llythyr Cynnig Grant, ond byddai mewn fformat gwahanol wrth symud ymlaen. Ni chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru eto. Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, eglurodd Lisa Winstone sefyllfa ariannol y Cyngor o ran y rhaniad rhwng yr incwm a dderbynnir o ffïoedd cofrestru a'r arian grant a dderbynnir i ymgymryd â gweithgareddau ar ran Llywodraeth Cymru. Dywedodd nad oedd CGA yn dibynnu ar y cyllid grant i ymgymryd ag unrhyw un o'i swyddogaethau statudol craidd a bod yr arian grant a dderbynnir yn cael ei gostio a'i aseinio i feysydd gwaith penodol.

5.6 O ran y gwaith a ariennir gan gyllid grant, holodd un aelod a fyddai oedi wrth gael ymateb gan Lywodraeth Cymru yn arwain at unrhyw oblygiadau i staff CGA sy'n gweithio yn y meysydd hyn. Cadarnhaodd Lisa Winstone fod mwyafrif y gwaith hwn wedi cael ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru am nifer sylweddol o flynyddoedd ac felly nid oedd swyddogion yn pryderu ynglŷn â hynny.

5.7 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 21, byddai'r Prif Weithredwr a Chadeirydd newydd y Cyngor yn cyfarfod â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 7 Mehefin 2023. Cyfarfod a gynhelir bob blwyddyn yw hwn.

5.8 Gan gyfeirio at baragraff 30, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai CGA yn cynnal ei Ddosbarth Meistr nesaf ar 18 Mai 2023, gyda'r Athro EJ Renold a siaradwyr o nifer o sefydliadau partner. Anogodd yr aelodau i'w fynychu os oedd modd.

5.9 Nid oedd gan yr aelodau unrhyw gwestiynau eraill ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad.

**6. Ethol Cadeirydd y Cyngor CGA 16/23**

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur a oedd yn amlinellu'r broses ar gyfer ethol Cadeirydd newydd y Cyngor.

6.2 Fel y cytunwyd yn ystod trafodaethau cynharach yn yr Hyfforddiant Sefydlu, byddai'r aelodau'n trafod y mater yn fanwl yn ystod sesiwn breifat y cyfarfod. Dywedodd aelodau y dylid ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol fel na fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa lle mae'n gweithredu heb Gadeirydd. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai hyn fod yn anodd oherwydd bod aelodau'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru a bod y Cadeirydd yn cael ei ethol o blith yr aelodau.

6.3 Nododd yr aelodau y papur i'w ystyried yn ystod y sesiwn breifat.

**7. Adroddiad ar gynnydd Statws Athro Cymwysedig, Cofrestru a Sefydlu CGA 17/23**

7.1 Cyflwynodd Liz Brimble *(Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer)* yr adroddiad cynnydd hwn a roddodd ddiweddariad i'r aelodau ar waith CGA mewn perthynas â Chofrestru a gweinyddu dyfarniadau Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

7.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff dau, nifer derfynol yr unigolion cofrestredig unigol ar gyfer 2022/23 oedd 88,748. Rhoddodd Liz Brimble drosolwg manwl o nifer yr ymarferwyr cofrestredig ar 31 Mawrth 2023 yn ôl categori cofrestru, fel yr amlinellir yn y data a ddarperir yn atodiad A.

7.3 Adroddwyd bod proses adnewyddu ffïoedd cofrestru 2023/24 yn mynd rhagddi a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffïoedd i'r Cyngor gan gyflogwyr oedd 7 Ebrill 2023. Anfonwyd nodyn atgoffa ynghylch adnewyddu at yr 20,382 o unigolion cofrestredig a oedd yn talu eu ffïoedd yn uniongyrchol ar 6 Chwefror 2023, ynghyd â chyfres o nodiadau atgoffa i dalu'r ffi erbyn 31 Mawrth 2023. Byddai'r broses ddatgofrestru flynyddol ar gyfer y rhai a ddewisodd beidio ag adnewyddu eu cofrestriad yn digwydd ar 12 Mai 2023.

7.4 Wrth ymateb i ymholiad gan aelodau ynglŷn ag ymarferwyr a oedd yn gweithio i nifer o gyflogwyr, cadarnhaodd Liz Brimble y byddai'r ffi gofrestru'n cael ei didynnu o'r cyflog yr oedd yr unigolyn cofrestredig yn ei gael gan ei brif gyflogwr rhestredig. Pe byddai'r taliad yn cael ei gymryd fwy nag unwaith gan gyflogwyr, byddai'n cael ei ad-dalu.

7.5 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff wyth, atgoffwyd yr aelodau bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gategorïau cofrestru newydd ar gyfer CGA. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 21 Mawrth 2023. Disgwyliwyd y byddai'r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno ar 18 Mai 2023 cyn cael ei ddeddfu ar 22 Mai 2023.

7.6 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, adroddodd Liz Brimble fod swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r sector ysgolion annibynnol yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud â'i ymarferwyr. Roedd y trafodaethau wedi bod yn gadarnhaol ac roedd nifer o sesiynau gwybodaeth yn cael eu cynnal ar draws sefydliadau. Roedd nifer yr ymarferwyr newydd y byddai angen iddynt gofrestru yn y sector Gwaith Ieuenctid yn fach iawn, felly bu'n fwy heriol ymgysylltu â nhw'n uniongyrchol. Roedd swyddogion yn parhau i ddefnyddio'r perthnasau cryf yr oeddent wedi'u datblygu a'u cynnal gyda'r sector cyfan ers i'r gofyniad i Weithwyr Ieuenctid a Gweithwyr Cymorth Ieuenctid gael eu cofrestru gyda CGA ddod i rym yn 2017.

7.7 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â chapasiti CGA o ran adnoddau a staff i brosesu'r categorïau cofrestru newydd, dywedodd Liz Brimble fod swyddogion yn disgwyl y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn arwain at ychwanegu tua 2,000 o unigolion cofrestredig newydd at y Gofrestr; 1,700 o ymarferwyr ysgolion annibynnol a 200-300 o ymarferwyr yn y sector gwaith ieuenctid, felly roedd y niferoedd yn gymharol fach o ystyried nifer gyffredinol yr unigolion cofrestredig.

7.8 Holodd un aelod sut byddai ymarferwyr â gorchmynion disgyblu addasrwydd i ymarfer yn eu herbyn mewn categorïau eraill yn cael eu hadnabod pan fyddent yn cael eu hychwanegu at y Gofrestr mewn categori newydd. Cadarnhaodd Liz Brimble fod swyddogion yn gallu adnabod unrhyw bobl o'r fath yn rhwydd. Rhoddodd sicrwydd i'r aelodau hefyd fod swyddogion wedi defnyddio'r un broses wrth gofrestru categorïau eraill o ymarferwyr mewn swmp yn ystod y blynyddoedd diweddar.

7.9 Gan gyfeirio at baragraffau 14-15, gofynnodd un aelod am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai'r Cyngor gynnal ailddilysu. Esboniodd Liz Brimble fod ailddilysu'n broses sy'n ofynnol gan lawer o reoleiddwyr fel amod cofrestru. Roedd swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymchwil ynglŷn â'r pwnc, sydd yn ei ddyddiau cynnar. Byddai'r Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio a'r Cyngor yn cael gwybodaeth wrth i'r ymchwil barhau.

7.10 Cyfeiriodd Liz Brimble yr aelodau at yr Adroddiad Data ac Adrodd yn atodiad B, a thynnodd sylw'n arbennig at yr arolwg o weithlu'r sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, y cytunwyd ar swm grant ar wahân ar ei gyfer. Disgwyliwyd i'r adroddiad terfynol gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2023.

7.11 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad, ac roeddent yn arbennig o ddiolchgar am y cynnydd cadarnhaol a wnaed ynglŷn â gweithredu'r categorïau cofrestru newydd.

**8. Uwchraddio cronfa ddata CGA** **CGA 18/23**

8.1 Cyflwynodd Liz Brimble y papur hwn a oedd yn disgrifio'r cynnydd hyd yma i uwchraddio cronfa ddata Cofrestru CGA. Amlinellodd yr hanes, y gwaith a wnaed a'r ffaith bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r argymhelliad i uwchraddio'r gronfa ddata bresennol yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2022.

8.2 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, esboniodd y byddai'r prosiect yn cael ei gynnal mewn chwe cham a fyddai'n cynnwys trafodaethau gyda thimau ynglŷn â manylebau manwl, mudo data a phrofi helaeth, gyda'r bwriad o fynd 'yn fyw' ym mis Rhagfyr 2023. Roedd yr ymarferion cwmpasu ar gyfer gofynion penodol holl feysydd gwaith y Cyngor wedi cael eu cwblhau. Dywedodd ymhellach y byddai'r gronfa ddata Addasrwydd i Ymarfer yn cael ei hymgorffori yn y system wedi'i huwchraddio i symleiddio a chanoli gwaith y Cyngor.

8.3 Yn rhan o'r broses mudo data, byddai swyddogion yn cynnal ymarfer glanhau data trwyadl i sicrhau bod y data a ddelir gan y Cyngor yn gywir ac yn adlewyrchu arferion gwaith cyfredol unigolion cofrestredig.

8.4 Dywedodd Liz Brimble ei bod hi a Rheolwr Cymwysterau a Chofrestru CGA yn cyfarfod ag arweinwyr y prosiect bob pythefnos i drafod cynnydd.

8.5 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â risg, cadarnhaodd Liz Brimble y byddai'r data'n cael ei gopïo o'r system bresennol i'r fersiwn wedi'i huwchraddio, felly ni fyddai unrhyw darfu ar y gwasanaeth. O ystyried ei gwerth uchel, roedd y broses uwchraddio ei hun wedi cael ei hychwanegu at Gofrestr Risg y Cyngor a oedd yn cael ei thrafod gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ym mhob cyfarfod a'i chyflwyno i'r Cyngor i'w thrafod bob mis Gorffennaf.

8.6 Nid oedd gan yr aelodau unrhyw ymholiadau eraill ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**9. Adroddiad cynnydd Addasrwydd i Ymarfer CGA 19/23**

9.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig.

9.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff dau, roedd swyddogion wedi cael 63 o atgyfeiriadau cyflawn ar gyfer y flwyddyn 2022/23 ac roedd 25 wrthi'n cael eu hasesu ar gyfer cyflawnder. Adroddodd fod nifer o ymholiadau parhaus hefyd gyda'r heddluoedd amrywiol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyflogwyr.

9.3 Gan gyfeirio at baragraff pump, adroddwyd bod 46 o wrandawiadau wedi cael eu cwblhau yn 2022/23 a bod 21 arall wedi'u trefnu ar gyfer 2023/24. Er na aethpwyd dros y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2022/23, roedd y gyfradd prosesu achosion yn gyfredol ac nid oedd unrhyw ôl-groniad achosion i ddelio ag ef. Atgoffodd yr aelodau, o ganlyniad i'r arferion gwaith a fabwysiadwyd yn ystod Covid ac yn unol ag ymagwedd llawer o reoleiddwyr eraill ers hynny, fod gwrandawiadau'n cael eu cynnal yn rhithwir yn ddiofyn a bod unigolion cofrestredig yn cael yr opsiwn o ddewis gwrandawiad 'wyneb yn wyneb' ar gyfer eu hachos. Er mwyn i wrandawiad 'wyneb yn wyneb' gael ei gadarnhau, roedd yn ofynnol i'r unigolyn cofrestredig ymrwymo i'w fynychu neu gael ei gynrychioli 'wyneb yn wyneb' ynddo.

9.4 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraffau 10 ac 11 a adroddodd fod 186 o achosion addasrwydd i gofrestru wedi cael eu hasesu ers 1 Ebrill 2022. Rhoddwyd canlyniad yr holl asesiadau a gwblhawyd hyd yma yn atodiad B. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, roedd 11 Pwyllgor Addasrwydd wedi cyfarfod, gan arwain at wrthod 4 cais, caniatáu 5 cais, a 2 ohiriad.

9.5 Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod swyddogion yn parhau i gyflwyno nifer fawr o sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau ar gais rhanddeiliaid. Fel yr adroddwyd ym mharagraff 16, roedd 58 o sesiynau wedi cael eu cyflwyno ers 1 Ebrill 2022, sef 15 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd ymholiadau a cheisiadau ychwanegol yn parhau i gael eu derbyn gan sefydliadau ar draws pob categori cofrestru.

9.6 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 17, lansiwyd ymgyrch recriwtio aelodau panel lleyg ychwanegol ar 24 Chwefror 2023 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 31 Mawrth 2023. Dywedodd Liz Brimble y cafwyd 21 o geisiadau ac y disgwyliwyd cyfweld y rhai ar y rhestr fer yn ystod wythnos gyntaf mis Mai 2023.

9.7 Anogodd Liz Brimble yr aelodau i gysylltu â'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol i arsylwi gwrandawiad er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o weithdrefnau gwaith achos y Cyngor.

9.8 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â'r nifer wahanol o atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan bob awdurdod lleol yn atodiad B, cadarnhaodd Liz Brimble fod swyddogion yn ysgrifennu at gyflogwyr bob blwyddyn, yn cyfarfod ag arweinwyr Adnoddau Dynol ac yn cysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'u rhwymedigaeth statudol ddeddfwriaethol i wneud atgyfeiriadau i CGA. Wrth ymateb i gwestiwn arall, cadarnhaodd fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal â'r holl Heddluoedd yng Nghymru a bod cytundebau rhannu data ar waith hefyd.

9.9 Wrth ymateb i ymholiad ynglŷn â'r nifer leiafsymiol o atgyfeiriadau yn ymwneud â'r sector gwaith ieuenctid, esboniodd Liz Brimble fod ymarferwyr gwaith ieuenctid yn cyfrif am oddeutu 1000 o'r nifer gyffredinol o 88,748 o ymarferwyr cofrestredig, ac felly ei bod yn fwy tebygol y byddai niferoedd llai o atgyfeiriadau'n cael eu derbyn.

9.10 Wrth ymateb i awgrym gan aelod i gyd-destunoli nifer yr atgyfeiriadau a wnaed gan bob awdurdod lleol yn ôl canran, esboniodd Liz Brimble y ceisiwyd gwneud hyn yn flaenorol ond o ganlyniad i nifer yr atgyfeiriadau achosion a dderbynnir gan CGA o gymharu â'i niferoedd unigolion cofrestredig cyffredinol, roedd y canlyniadau a gynhyrchwyd o ddegolyn mor fach fel nad oeddent o werth.

9.11 Nid oedd gan yr aelodau gwestiynau eraill ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**10. Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon CGA 20/23**

10.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a roddodd adroddiad cynnydd i'r aelodau ar rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru.

10.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraffau 4 - 5, roedd Llywodraeth Cymru wedi adolygu a diwygio'r Meini Prawf. Goruchwyliwyd yr adolygiad gan grŵp llywio, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o CGA, a disgwyliwyd i'r newidiadau gael eu cyhoeddi cyn hir. Roedd swyddogion wedi diwygio'r gweithdrefnau a'r dogfennau achredu ac wedi datblygu gweithdrefnau a dogfennau drafft yn ymwneud ag achredu yn unol â'r diwygiad. Byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi pan fyddai'r Meini Prawf diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

10.3 Roedd paragraffau 8 - 12 yn rhestru'r rhaglenni a fu'n destun monitro interim fel amod achredu. Roedd y canlyniadau wedi cael eu rhannu gyda Phartneriaethau yn unol â'r graddfeydd amser a amlinellir yn y canllawiau monitro interim.

10.4 Fel yr adroddwyd i'r Cyngor yn flaenorol, ystyriwyd nad oedd rhaglen un Bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Meini Prawf yn dilyn ymweliad monitro ym mis Gorffennaf 2022. Cyflwynodd y Bartneriaeth gynllun gweithredu dilynol i fynd i'r afael â'r materion hyn ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd. Roedd y mater yn parhau a byddai'r Cyngor yn cael gwybod am ddatblygiadau pellach.

10.5 Gan gyfeirio at baragraff 16, adroddodd fod CGA wedi dyrannu niferoedd i bob rhaglen yng Nghymru yn unol â'r derbyniad cenedlaethol dymunol o fyfyrwyr AGA ar gyfer 2023-24, fel y'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r Partneriaethau am hyn ar 21

Tachwedd 2022. Dechreuodd CGA fonitro recriwtio yn erbyn y dyraniadau yn fisol ym mis Ionawr 2023.

10.6 Nid oedd gan yr aelodau gwestiynau eraill ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**11. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gynigion ar gyfer Bil Addysg y Gymraeg**

**CGA 21/23**

11.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a oedd yn ymwneud ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gynigion ar gyfer Bil Addysg y Gymraeg. Dywedodd fod y ddogfen ymgynghori'n ymdrin â nifer o feysydd ac felly bod CGA yn bwriadu ymateb i'r cwestiynau sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl yn unig. Gofynnwyd i'r aelodau roi cyfeiriad i swyddogion ar ymateb drafft a fyddai'n cael ei rannu gyda'r Cyngor i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno.

11.2 Trafododd yr aelodau nifer o bynciau yn ymwneud â recriwtio a chadw mewn perthynas â'r Gymraeg yn y gweithlu addysg, yn enwedig o ystyried y cyd-destun presennol ar draws y sector. Cytunwyd hefyd y dylai ymateb CGA nodi y dylai'r weledigaeth gael ei chymhwyso i ymarferwyr ar draws pob un o'r saith categori unigolion cofrestredig.

11.3 Diolchodd Bethan Stacey i'r aelodau am eu sylwadau a dywedodd y byddai ymateb drafft yn cael ei ddosbarthu i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth, maes o law.

**12. Sefydlu Statudol a Phasbort Dysgu Proffesiynol** **CGA 22/23**

12.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiad a gwahoddodd yr aelodau i nodi cynnydd gwaith y Cyngor wrth weinyddu trefniadau cyllid, olrhain a chofnodi ar gyfer sefydlu athrawon ysgol yn ogystal â'r cynnydd wrth sefydlu ac ymgorffori'r Pasbort Dysgu Proffesiynol ar ran Llywodraeth Cymru.

12.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff dau, roedd yr holl weithgarwch yn parhau i gael ei gwblhau yn unol â thelerau ac amodau targedau perfformiad grant.

12.3 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 12, y cyllid a ddyrannwyd yn y llythyr Cynnig Grant ar gyfer gweinyddu rhaglen sefydlu 2022/23 oedd £5,200,000, ond roedd swyddogion wedi amcangyfrif y byddai'r gwaith yn mynd y tu hwnt i'r lefel grant hon. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n flaenorol y gallai CGA gysylltu â nhw ar gyfer atodiad pe byddai'r sefyllfa honno'n codi, a gwnaed cais gan CGA yn dilyn hynny. Ar 31 Ionawr 2023, rhoddodd Llywodraeth Cymru atodiad i CGA i'r llythyr Cynnig Grant ar gyfer 2022-23 yn cadarnhau'r cyllid ychwanegol, gan fynd â chyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i £6,200,000. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd y Cyngor yn aros am y Llythyr Cyllido gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24.

12.4 Wrth roi diweddariad i'r aelodau ar weithredu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, cadarnhaodd Bethan Stacey fod y Pasbort wedi cael ei ymgorffori mewn nifer o raglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol a rhanbarthol, fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 19 – 20. Roedd nifer o ysgolion wedi cysylltu â'r Cyngor hefyd i geisio cymorth i sefydlu'r Pasbort ar sail ysgol gyfan er mwyn cynorthwyo eu staff â'u dysgu proffesiynol parhaus.

12.5 Adroddodd Bethan Stacey fod y gwaith datblygu ar raddfa fawr a oedd yn cael ei wneud gan ddarparwr meddalwedd y Pasbort Dysgu Proffesiynol, sef PebblePad, wedi cael ei gwblhau bellach, fel yr adroddwyd ym mharagraff 22.

12.6 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, dywedodd Bethan Stacey nad oedd rhaid cofrestru ar gyfer Pasbort Dysgu Proffesiynol, ond bod swyddogion yn cysylltu â nifer o ysgolion i'w hannog i ddefnyddio'r Pasbort fel y prif offeryn dysgu proffesiynol o ddewis.

12.7 Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad diweddaru.

**13. Hyrwyddo gyrfaoedd ym maes addysg CGA 23/23**

13.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn ac esboniodd mai un o brif swyddogaethau CGA o dan Ddeddf Addysg (Cymru) oedd hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg.

13.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff dau, roedd nifer o ddatblygiadau meddalwedd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn 2022/23. Tynnodd sylw'n arbennig at y 'feddalwedd pry cop' lle byddai swyddi gwag a hysbysebir ar wefannau cyflogwyr yn cael eu dyblygu a'u hysbysebu ar Addysgwyr Cymru. Roedd 16 ffrwd awdurdod lleol a'r holl ffrydiau colegau addysg bellach yn fyw a disgwyliwyd i ddwy arall fynd yn fyw erbyn diwedd mis Ebrill 2023.

13.3 Gan gyfeirio at baragraff pump, roedd y cyflenwyr dan gontract wrthi ar hyn o bryd yn datblygu fideograffeg a ffotograffiaeth ychwanegol i lenwi'r porth gyrfaoedd ar wefan Addysgwyr Cymru. Roedd materion rhwng y partneriaid dan gontract a adroddwyd i'r Cyngor yn flaenorol wedi cael eu datrys bellach gan CGA. Yng ngoleuni hyn, cytunwyd ar oedi byr a byddai'r cynnwys ychwanegol yn barod erbyn mis Mai / mis Mehefin 2023.

13.4 Cyfeiriodd Bethan Stacey at y gwaith eirioli sylweddol a oedd yn mynd rhagddo yn y maes hwn ym mharagraffau 9 – 14. Roedd swyddogion yn parhau i fynychu nifer fawr o ddigwyddiadau, fel yr amlinellwyd yn atodiad A.

13.5 Wrth ymateb i ymholiad gan aelod, dywedodd Bethan Stacey fod swyddogion yn mynychu digwyddiadau ledled Cymru ac mewn ardaloedd yn agos i'r ffin er mwyn annog ymarferwyr i addysgu yng Nghymru. O ran mesur llwyddiant, nodwyd bod y cynllun 18 mis cychwynnol ar gyfer y gwaith a'r brand wedi dod i ben bellach a bod swyddogion yn ystyried y llwyddiannau a meysydd yr oedd angen mwy o waith arnynt wrth gynllunio ar gyfer y 18 mis nesaf.

13.6 Roedd y Cyngor yn fodlon nodi'r cynnydd a amlinellwyd yn yr adroddiad.

**14. Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru CGA 24/23**

14.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a roddodd adroddiad cynnydd i'r aelodau ar gyflwyno'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Gwahoddodd unrhyw sylwadau neu ymholiadau gan yr aelodau yn deillio o'r adroddiad cynhwysfawr.

14.2 Fel yr adroddwyd yn y papur, roedd y Cyngor wedi derbyn gwahoddiad yn hwyr ym mis Tachwedd 2022 i ymestyn y contract presennol tan 13 Ionawr 2024, gyda chyfanswm gwerth blynyddol uwch o £85,000 a nifer fach o ofynion ychwanegol.

14.3 Nododd y Cyngor y cynnydd cadarnhaol a wnaed yn y maes gwaith hwn.

## 15. Eitem wybodaeth/eitemau gwybodaeth

Derbyniodd yr aelodau bapur(au) “er gwybodaeth” ar:

- **Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) (CGA 25/23)**

## 16. Unrhyw fater arall

16.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a chaewyd y cyfarfod cyhoeddus.

**Symudodd y Cyngor i sesiwn breifat**